# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 14/07/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

### Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

**C10 Nerys Evans:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch darparu cyllid ychwanegol ar gyfer y portffolio plant, addysg a dysgu gydol oes? OAQ(3)1156(BB)

**Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt):** Rwy'n cael trafodaethau rheolaidd â'r holl Weinidogion i drafod materion o bwys a blaenoriaethau. Gwnaeth y gyllideb atodol ddrafft ar gyfer 2010-11 ddyrannu £5.4 miliwn o refeniw yn ychwanegol at y portffolio a £60 miliwn o gyfalaf o'r gronfa buddsoddi cyfalaf strategol.

### Blaenoriaethau

**C11 Brian Gibbons:** Sut y bydd y Gweinidog yn pennu ei blaenoriaethau ar gyfer cyllideb nesaf Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ(3)1125(BB)

**Jane Hutt:** Mae 'Cymru'n Un' yn parhau i bennu'r cyd-destun strategol ar gyfer ein dyraniadau o'r gyllideb. Rydym yn trafod cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hyn, yn ogystal ag unrhyw faterion o bwys a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg. Mae'r ystyriaethau hyn yn helpu i lywio ein cynigion cyllidebol, y byddwn yn eu cyhoeddi yn yr hydref.

### Treftadaeth

**C12 Brynle Williams:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael yn ddiweddar ynghylch y dyraniad cyllideb i'r portffolio treftadaeth? OAQ(3)1124(BB)

**Jane Hutt:** Rwy'n cael trafodaethau rheolaidd â fy nghydweithwyr gweinidogol ar faterion cyllidebol. Yn ddiweddar, cefais gyfarfod â'r Gweinidog dros Dreftadaeth i ddeall y pwysau a'r blaenoriaethau o fewn ei bortffolio. Mae'r trafodaethau hyn yn rhan o'r gwaith cynllunio a pharatoi sy'n cael ei wneud fel rhan o'r broses arferol ar gyfer cynllunio'r cylch cyllidebol.

### Gwerth am Arian

**C13 Alun Davies:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn mae'n ei wneud i sicrhau gwerth am arian ar draws cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ(3)1128(BB)

**Jane Hutt:** Mae sicrhau gwerth am arian yn hanfodol i gynnig gwasanaethau cyhoeddus mewn modd effeithiol yn ystod y cyfnod heriol hwn. Mae gennym ystod o fentrau, ac mae fy mwrdd effeithlonrwydd ac arloesi yn sicrhau ein bod yn herio ein ffyrdd presennol o weithio,

gan sicrhau'r buddion gorau posibl o'n buddsoddiadau.

### Cyllid

**C14 Eleanor Burnham:** Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog yn ei rhoi i gyllid a ryddheir gan y Swyddfa Gartref wrth bennu ei chyllideb? OAQ(3)1131(BB)

**Jane Hutt:** Fy amcan yw sicrhau bod cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael ei gwario ar flaenoriaethau ac anghenion yng Nghymru. Mae'r Swyddfa Gartref yn rhoi cyllid sylweddol ar gyfer gweithgareddau yng Nghymru sydd heb eu datganoli. Rydym yn ymgysylltu'n agos â'r Swyddfa Gartref i ddeall effeithiau posibl y toriadau arfaethedig gan Lywodraeth y DU yng Nghymru.

### Llywodraeth y DU

**C15 Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drafodaethau y mae wedi'u cael yn ddiweddar gyda Llywodraeth y DU? OAQ(3)1137(BB)

**Jane Hutt:** Rwy'n cyfathrebu'n rheolaidd ac yn barhaus â Llywodraeth y DU ar nifer o faterion. Cefais drafodaeth gynhyrchiol â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ar 9 Mehefin, a byddaf yn cwrdd ag ef eto yn ystod y diwrnodau nesaf, ynghyd â Gweinidogion cyllid yr Alban a Gogledd Iwerddon, i drafod materion a rennir.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

### Llety i Dwristiaid

**C8 Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am argaeledd llety i dwristiaid yng Ngogledd Cymru? OAQ(3)1239(HER)

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones):** Mae gan Ogledd Cymru ystod o lety i dwristiaid sy'n addas ar gyfer pob chwaeth a chyllideb, gan gynnwys gwestai â gwasanaeth, tai llety, llety gwely a brecwast, bythynnod hunanarlwyo a meysydd carafán a gwersylla. Mae ansawdd oddeutu 80 y cant o fusnesau llety gogledd Cymru wedi'i safoni naill ai gan Croeso Cymru neu'r AA.

*Tynnwyd cwestiwn 9, OAQ(3)1233(HER), yn ôl.*

### Treftadaeth Chwaraeon

**C10 Mohammad Asghar:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hyrwyddo treftadaeth chwaraeon Cymru? OAQ(3)1247(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn falch iawn o dreftadaeth chwaraeon Cymru. Mae Neuadd Enwogion Chwaraeon Cymru, sy'n arddangos casgliad o arteffactau, wedi'i sefydlu yn Stadiwm y Mileniwm.

### Cyngor Celfyddydau Cymru

**C11 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am swyddogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru? OAQ(3)1238(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gyfrifol am gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth y Cynulliad ym maes y celfyddydau. Mae'r cyngor hefyd yn gorff sy'n dosbarthu arian loteri. Mae CCC yn gorff hyd braich, gan ddefnyddio'i arbenigedd yn y sector

penodol hwn i sicrhau'r mynediad gorau posibl at y celfyddydau yng Nghymru, a hynny er mwyn sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn gallu cymryd rhan yn y celfyddydau.

### Treftadaeth Wledig

**C12 Nick Ramsay:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo treftadaeth wledig? OAQ(3)1248(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae pwysigrwydd diwylliant cyfoethog ac amrywiol yn greiddiol i amcanion fy mhortffolio. Mae 'Cymru'n Un' yn amlinellu ein nod o gynnig profiadau diwylliannol o ansawdd uchel i ymwelwyr ac i bobl Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi ac yn hyrwyddo pob agwedd ar ddiwylliant Cymru yng Nghymru ei hun a thramor.

### Twristiaeth

**C13 Brynle Williams:** Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer cefnogi twristiaeth yng Ngogledd Cymru? OAQ(3)1216(HER)

**Alun Ffred Jones:** Fy mlaenoriaethau ar gyfer twristiaeth yng Ngogledd Cymru yw helpu i dyfu maint a gwerth twristiaeth yn y rhanbarth hwnnw drwy ei farchnata'n effeithiol a datblygu llety a chyfleusterau o ansawdd uchel i dwristiaid.

### Llwybrau i Dwristiaid

**C14 Bethan Jenkins:** A fyddai modd defnyddio'r pecynnau cymorth Naws am Le i sefydlu llwybrau i dwristiaid ledled Cymru? OAQ(3)1237(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae'r pecyn cymorth yn helpu busnesau twristiaeth i gynnwys ymdeimlad o le yn eu cynnyrch i roi naws Gymreig gref a nodedig iddynt. Gall gweithredwyr ym maes twristiaeth, gan gynnwys awdurdodau lleol a chonsortia twristiaeth preifat, ddefnyddio'r pecyn cymorth fel man cychwyn ardderchog wrth lunio llwybrau i dwristiaid.

### 'The Seaside Tourist Industry in England and Wales'

**C15 Gareth Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch yr adroddiad a ryddhawyd yn ddiweddar gan y Ganolfan Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd Rhanbarthol ym Mhrifysgol Sheffield Hallam o'r enw 'The Seaside Tourist Industry in England and Wales'? OAQ(3)1253(HER)

**Alun Ffred Jones:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau ar yr adroddiad; fodd bynnag, rwy'n ymwybodol o'r adroddiad a'i ganfyddiadau. Mae'r adroddiad yn dangos bod twristiaeth glan môr yn darparu dros 11,000 o swyddi yng ngogledd Cymru, gyda Llandudno, Conwy a Bae Colwyn yn cynnal 4,600 o'r rhain.